

YSGOL DYFFRYN OGWEN
WWW.DYFFRYNOGWEN.GWYNEDD.SCH.UK
FFON: 01248 600291



Bwletin i Rieni – Tachwedd 2012

Enillwyr Gwobrau 2010-2011

Dyddiadau Pwysig

04.12.12

Cyfarfod Rhieni Bl. 7

21.12.12

Diwrnod olaf y tymor.

24.12.12 – 04.01.13

Gwyliau'r Nadolig

07.01.13

Ysgol yn ail agor i bawb

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo Blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 19. Y gwr gwadd eleni oedd John Hardy, darlledwr sydd yn gyn-ddisgybl yr ysgol. Cafwyd anerchiad difyr a pherthnasol ganddo. Braff oedd clywed pa mor falch mae John o'i wreiddiau yn Nyffryn Ogwen. Ein gwesteion oedd Mrs Beryl Orwig – Ysgoloriaeth Dafydd Orwig, Mrs Mary Jones – Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda, Mr Rhys Llwyd – Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandygai, Mr & Mrs Thomas – Tarian Carwyn Thomas, Mrs Sharon Williams – Gyrfa Cymru.

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r noddwyr isod am eu cyfraniadau ariannol tuag at y Cyfarfod Gwobrwyo.

Jones & Whitehead, Tregarth.
Canolfan Feddygol Yr Hen Orsaf, Bethesda.
David Jones a'i Fab, Dwyran.

Owen & Palmer, Bangor.
E H Ellis, Penygroes.
Menai Blinds, Caernarfon.

Gwobrau Blwyddyn 7 :-

Gwobrau Pynciol :-

Martha Evans
Elin Rowlands
Elen Wyn
Owain Morgan

Gwenllian Owen
Sophie Williams
Steffan Davies
Tomos Griffith

Clwb Gwaith Cartref



Mae'r Clwb Gwaith Cartref ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau o 3:20 hyd at 4:20.

Mae hyn yn gyfle ardderchog i ddisgyblion gael cymorth gyda'u gwaith ysgol.

Mae croeso i ddisgyblion o flwyddyn 7 i 11 fynychu'r Clwb.

Cymraeg

Saesneg

Ffrangeg

Cerdd

Mathemateg

Gwyddoniaeth CA3

Gwyddoniaeth CA4

Gwyddoniaeth CA5

Hanes

Daeryddiaeth

Astudiaethau Crefyddol

Addysg Gorfforol

Celf

Lletygarwch

Dylunio a Thechnoleg (Gwrthiannol) Gareth Walker

Gwobr Cynnydd

Ymdrech Bl. 7

Ymdrech Bl. 8

Ymdrech Bl. 9

Ymdrech Bl. 10

Emily Roberts
Gethin Sherrington
Cara Thomas
Sioned Francis
Henri Williams
Carys Jones
Cara Thomas
Henri Williams
Cara Thomas
Iwan Harper
Luke Crowe
David Hayes
Emily Robinson
Emily Roberts
Gareth Walker
Callie Bewley
Tomos Griffiths
Shona Roberts
Ianto Shea
Elan Jones

Gwion Williams
Cara Thomas
Tomos Griffith
Rhiannon Llwyd
Gethin Sherrington
Cai Dickinson
Ben Roberts
Gethin Sherrington
Rhian Owen
Adam Hughes
Annest Rowlinson
Adam Hughes
Ben Owen-Robinson
Catrin Williams
Rhiannon Llwyd
Richard McCarthy
Lisa Carr
Tristan Walker
Sara Evans
Gwynfor Rowlinson

Gwobrau Presenoldeb

Mabolgampwr y Flwyddyn Bl. 7
Mabolgampwr y Flwyddyn Bl. 8
Mabolgampwr y Flwyddyn Bl. 9
Mabolgampwr y Flwyddyn Bl. 10
Gwobr Tîm y Flwyddyn
Perfformiad Gorau TGAU
Perfformiad Gorau Lefel A
Tarian Carwyn Thomas
Tlws Athletwr y Flwyddyn
Gwobr Goffa Frank Rhys Jones
Ysgoloriaeth Cynqr Cymuned Bethesda
Gwobr Goffa Dafydd Orwig

Steffan Davies
Cadi Rhys
Manon Hughes
Iwan Roberts
Mari Wyn Jones
Steffan Davies
Lewis Hall
Morgan Owen
Elis Jones
Côr Iau yr Ysgol
Cara Thomas
Henri Williams
Mari Davies
Morgan Owen
Charlotte Speddy
Llinos Bolton
Rhiannon O'Marah

Nic Hayward-Jones
Morgan Jones
Luke Crowe
Gareth Williams

Fflur Puw
Manon Hughes
Lowri Sherlock
Seirian Puw

Adam Hughes
Gethin Sherrington

Gwion Williams

Cinio Ysgol Am Ddim



Efallai fod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:-
* Cymorth Incwm
* Lwfans Chwilio am Waith
* Credyd Treth Plant (yn unig)
* Gwarant Credyd Pensiwn
Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar 01286 682689.



Grant Gwisg Ysgol

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:-
* Cymorth Incwm
* Lwfans Chwilio am Waith
* Lwfans Rhiant Gweddw
* Gwarant Credyd Pensiwn
Cysylltwch gyda'r Adran Budd-daliadau yng Nghaernarfon ar 01286 682689.


Newidiadau Staff

Yr ydym wedi croesawu tair athrawes newydd ar ddechrau'r tymor, sef Mrs Llinos Murphy, Mathemateg, Miss Amy Hargreaves, Saesneg, a Miss Lowri Evans, Cymraeg. Hefyd Mrs Julie Hughes, Mrs Heidi Parker a Miss Leusa Williams yn gymorthyddion. Yr ydym hefyd yn croesawu cogyddes newydd yn y gegin, sef Mrs Ellen Roberts. Croeso cynnes iddynt i gyd. Dymunwn yn dda i'r staff sydd wedi ein gadael ar ddiwedd y tymor diwethaf, sef, Ms Sarah Ozanne, Mrs Rhiannon Thomas a Mrs Glenys Rowlands, Cogyddes.

Dyddiaduron

Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7-13 wedi derbyn dyddiadur personol er mwyn trefnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r dyddiadur hefyd yn fodd pwysig o gyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni. Byddwn yn defnyddio'r dyddiadur i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r canlynol:-

- Gwaith Cartref
- Adroddiadau ac Asesiadau
- Monitro a thracio cynnydd yn erbyn



targedau

- Cyfweiliadau Tiwtor
- Llythyrau i Rieni
- Arholiadau/Asesiadau dan Reolaeth
- Presenoldeb

Gofynnwn yn garedig i chi drafod cynnwys y dyddiadur gyda'ch plentyn a'i arwyddo'n wythnosol.

Canlyniadau Arholiadau 2012



Yr oedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Cafwyd y canlyniadau TGAU gorau erioed yn hanes yr ysgol gyda 95% o'r disgyblion yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 o raddau A*-C, ac ni adawodd yr un disgybl heb ennill cymhwyster. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i Cara Thomas o Dregarth a gafodd 4A* a 6A. Canlyniad hyn yw fod bron hanner y flwyddyn wedi dychwelyd i'r Chweched Dosbarth

eleni. Un gwahaniaeth eleni oedd i'r bechgyn yn gyffredinol wneud yn well na'r merched - patrwm sy'n groes i'r arfer.

Yr oedd y canlyniadau Lefel A hefyd yn dda iawn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i fynd i'r coleg neu gwrs o'u dewis. Mae'n rhaid llongyfarch dau o'r bechgyn yn arbennig am ganlyniadau rhagorol – Gethin Sherrington o Dregarth a enillodd 1A* a 3A ac ym Manceinion yn astudio Ffiseg, a Henri Williams o Lanllechid a enillodd 2A* a 2A. Mae Henri wedi mynd i Goleg yr Iesu yn Rhydychen i astudio Mathemateg. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Gwyliau Teuluol yn ystod y Tymor



Rydym wedi derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â hyn. **Nid ydym o blaid rhyddhau disgyblion yn ystod tymor ysgol ar gyfer gwyliau teulu.** Gofynnwn am eich cydweithrediad i osgoi sefyllfaoedd o'r fath.

Absenoldeb Disgyblion

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion Hi fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol rydym wedi mabwysiadu trefn gyswllt diwrnod cyntaf sy'n ein galluogi i anfon neges destun yn uniongyrchol at rieni a gofalwyr. Gofynnwn i chi ddilyn y camau isod pan fydd eich plentyn yn absennol.

1. Hoffwn i chi gysylltu â'r ysgol cyn 8:45 ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol:- Ffônio 01248 600291.
2. Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9:15 y bore yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.
3. Gofynnir i chi nodi rheswm yr absenoldeb yn nyddiadur eich plentyn.

Diolch am eich cydweithrediad.

Prydlondeb

Mae disgwyl i bawb fod yn yr ysgol erbyn **8:50am** er mwyn rhoi dechrau trefnus i'r diwrnod. Gofynnwn am gydweithrediad rhieni. **Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn y bore, neu sy'n hwyr ar gyfer eu gwersi, yn cael eu cadw mewn amser cinio neu ar ôl ysgol.**



Gadael Tir yr Ysgol

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynnyddoedd 7 – 11 adael tir yr ysgol yn ystod amser egwyl a chinio. Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

Ysgol Ddi-Fwg

Mae adeilad yr ysgol a'r tir tu allan yn ardaloedd di-fwg. Ni chaniateir ysmegu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmegu yn y manau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmegu.



Cymorth Gwaith Cartref

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn cynnig cymorth 24 awr y dydd gyda Gwaith Cartref. Drwy gofrestru ar lein ar www.gwynedd.gov.uk/llyfrgell gellir cael mynediad am ddim at adnoddau fel yr Encyclopaedia Britannica ac adnoddau ardderchog eraill.

Adran y Gymraeg - Dau gynllun



cyffrous

Y tymor diwethaf bu'r adran yn cydweithio â'n hysgolion cynradd ar ddau gynllun dalgylchol cyffrous. Aeth criw o'n disgyblion gyda Catherine Aran a Miss Bethan Hughes (a oedd gyda ni fel darpar

athrawes) i Ysgol Penybryn i gynnal gweithdy creu chwedl gyda Bl6 ar y cyd â disgyblion Bl6 Ysgol Llanllechid ac ychydig wyfhnosau ddiweddarach daeth yr awdur Bedwyr Rees (ac enillydd Y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012) i'r ysgol i ddechrau ar greu addasiad o'i lyfr "Isio Bet?" mewn gweithdy gyda disgyblion Bl5 Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth. Gobeithiwn gwblhau'r ddau gynllun yn ystod y tymor hwn ac yna rhannu'r gwaith da a grëwyd.

Cerdd – Ymweliad Côr yr Ysgol â Disneyland Resort, Paris

Ar ôl nifer o glyweliadau, cafodd côr yr ysgol wybod yn ddiweddar eu bod wedi cael eu derbyn gan Disneyland Paris i berfformio yn eu dathliad Gŵyl Dewi yn ystod yr ail benwythnos ym mis Mawrth 2013. Mae hwn yn gyfle arbennig i'r côr a hefyd yn gyfle i weddill Ewrop gael y cyfle i glywed doniau a thalentau'r disgyblion arbennig yma. Byddant yn perfformio nesaf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ac yna'n prysur ddysgu repertoire newydd ar gyfer y profiad unigryw yma.



Adran Addysg Gorfforol



Llongyfarchiadau i Manon Hughes bl.9 ar gael ei dewis i gynrychioli Eryri mewn treialon Pêl-rwyd dan 14 ym Mangor yn ddiweddar. Roedd drws 60 o enethod o ysgolion Gwynedd, Môn a Chonwy'n treialu am lefydd yn y garfan. Bydd Manon yn hyfforddi gyda'r garfan am ychydig wyfhnosau cyn mynd ymlaen i dreialon pellach.

Yn ystod gwyliau'r haf cafodd 8 o ddisgyblion yr ysgol gyfle i gymryd rhan yn seremoni agoriadol y gemau Olympaidd yn Llundain. 'Roedd yr ysgol wedi cael ei dewis oherwydd ein cysylltiadau ag ysgolion yn Indonesia ac ein addewid i gefnogi fîm Indonesia yn ystod y gemau. 'Roedd y disgyblion wedi cael ei dewis ar sail eu gwaith ar Gyngor Chwaraeon yr ysgol neu am godi arian mewn taith gerdded noddedig i'r Adran Addysg Gorfforol. Bu gofyn i'r disgyblion wneud baner oedd yn adlewyrchu Indonesia ar gyfer y prosiect a gwnaethpwyd hyn yn yr ysgol o dan oruchwyliaeth y Pennaeth Celf, Mrs Julie Jones. Wedyn roedd yn rhaid chwifio'r faner yn ystod "Guard of Honour" i'r holl athletwyr oedd yn gorymdeithio i mewn i'r stadiwm yn y seremoni agoriadol, gan roi cefnogaeth arbennig i dîm Indonesia.

Fel rhan o'r prosiect trefnwyd i'r disgyblion gael ymweld â Llysgenhadaeth Indonesia yn Grosvenor Square yn Llundain cyn cael taith o amgylch y parc Olympaidd a chymryd rhan yn nhrefniadau'r seremoni.

Llwyddwyd i gael ambell lun gyda sêr y byd chwaraeon (Usain Bolt a Novak Djokovic) a chafwyd nifer o lofnodion ar faner y ddraig goch gan gynnwys Tom Daley a Louis Suarez.



Prif Ddisgyblion



Dafydd Williams a Mari Gwyn yw'r Prif Ddisgyblion ac Emily Pritchard a Gethin Williams yw'r dirprwyon am y flwyddyn addysgol 2012 -2013. Dymunwn yn dda iddynt yn eu gwaith.

Cwrs Croeso Blwyddyn 7 Rhyd Ddu

O'r 16eg i'r 18fed o Hydref, cafodd pob dosbarth ym mlwyddyn 7 fynd i Rhyd Ddu i aros dros nos fel rhan o'r Cwrs Croeso. Bwriad y cwrs ydi croesawu disgyblion newydd yr ysgol i flwyddyn 7. Mae'n gyfle da iddyn nhw ddod i adnabod ei gilydd, y staff sy'n gweithio hefo nhw a'r bydys chweched dosbarth sydd yno i'w cefnogi.

Roedden nhw'n cael diwrnod o gerdded mynydd, gyda phob grŵp yn llwyddiannus yn cyrraedd copa'r Aran. Er i ni weld gwynt, glaw a chwmwl ar y ffordd, cafodd pawb weld o leiaf ychydig o'r olygfa o'r copa. Roedd y bydys chweched dosbarth wedi bod yn brysur iawn yn cael gwersi coginio ymlaen llaw, felly spaghetti bolognese oedd i swper - hyfryd, da iawn chi bois! Y weithgaredd arall oedd adeiladu lloches ym Mharc Meurig, Bethesda - roedd pob fim yn cael bwced o offer a sialens i weithio fel fim i adeiladu lloches sych a chlyd yn y goedwig - llwyth o hwyl, a chyfle da i ddatblygu sgiliau cydweithio.



Daeth pawb adref yn flinedig ond wedi mwynhau - yn adnabod ei gilydd yn well ac yn teimlo yn ran go iawn o Ysgol Dyffryn Ogwen. Croeso mawr i chi!

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a myfyrwyr chweched dosbarth oedd yn fodlon aros dros nos yn Rhyd Ddu i roi'r cyfle yma i'r disgyblion.

Cyngor Disgyblion

Dyma aelodau'r Cyngor am eleni:-



Blwyddyn 7 –

Esme Crowe, Joshua Heaton, Cadi Roberts, Pedr Owen, Cai Griffiths, Chloe Jones.

Blwyddyn 8 -

Elin Rowlands, Cian Price, Osian Price, Sophie Davies, Dylan Jones, Chloe Davies.

Blwyddyn 9 -

David Williams, Catrin Jones, Dyddgu Sargeant, Ben Jones, Casey Briggs, Math Owen.

Blwyddyn 10 –

Elin Cain, Joshua Williams, Ianto Shea, Sioned Carran, Carys Jones, Jake Williams.

Blwyddyn 11 –

Sioned Jones, Sean Carson, Jack Henry, Katie Jones, Bethan Hughes, Erin Roberts.

Blwyddyn 12 –

Adam Hughes, Emily Roberts, Manon Davies, Josh Ward.

Blwyddyn 13 –

Dafydd Williams, Mari Gwyn.